Duw Doethineb

Adnodau agoriadol:

"Trwy ddoethineb y sylfaenodd
yr Arglwydd y ddaear
ac â deall
y sicrhaodd y nefoedd." *Diarhebion 3: 19.*

"Ofn yr Arglwydd yw
dechrau doethineb
ac adnabod y Sanctaidd
yw deall." *Diarhebion 9: 10.*

"Trwy ei waith ef yr ydych chwi
yng Nghrist Iesu,
yr hwn a wnaed
yn ddoethineb i ni
oddi wrth Dduw." *1 Corinthiaid 1: 30.*

Geiriau agoriadol:

Duw yw hanfod a ffynhonnell pob doethineb ac mewn perthynas â Duw y mae canfod cyfrinach gwir ddoethineb – perthynas a wnaed yn bosibl trwy ymgorfforiad y doethineb dwyfol mewn person dynol yn y byd hwn, sef ei Fab Iesu Grist.

A chadw mewn meddwl y geiriau, "Yr ydych yng Nghrist Iesu," gweddïwch
yn dawel...
am i feddwl Crist lenwi a llywio eich meddwl chi...
am i ewyllys Crist gywiro a grymuso eich ewyllys chi...
am i ddoethineb Crist eich meddiannu, eich goleuo a'ch sancteiddio...

Gweddi agoriadol:

Arglwydd doethineb,
y mae dy feddwl di
yn uwch na'n meddyliau ni,
a dirgelwch dy ddoethineb
yn ddyfnach na'n deall ni;
ond diolchwn
nad wyt wedi'n gadael
mewn tywyllwch ac anobaith,
ond wedi tywallt
dy ddoethineb arnom
yn dy Fab Iesu Grist.

Agor ein meddyliau i'r
gwirionedd sydd yn Iesu;
goleua ein deall
i ni weld y tu hwnt
i ffiniau cyfyng
y byd materol hwn;
pura ein dychymyg
i ni weld dy ogoniant
yn disgleirio
ym mhob rhan o'n bywyd.

Arglwydd, estyn dy ddoethineb
i bawb mewn awdurdod:
i arweinwyr y gwledydd
a phawb sy'n llywodraethu dros eraill;
i rieni ac athrawon
a phawb sy'n dysgu a dylanwadu ar blant;
i ddarlledwyr a newyddiadurwyr
a phawb sy'n llywio barn eraill;
i bawb sy'n wynebu problemau
dyrys a phenderfyniadau anodd. Amen.

Emyn: 3 Caneuon Ffydd.

Myfyrdod:

Yn yr Hen Destament, mae tri llyfr, Job, Diarhebion a llyfr y Pregethwr yn perthyn i lenyddiaeth Doethineb. Fel y byddwn yn cysylltu Moses â'r gyfraith, Dafydd â'r salmau byddwn yn cysylltu Solomon â llên doethineb. Ond mae olion pum canrif ar y deunydd hwn, o'r wythfed hyd y drydedd. Tybed, nad y brenin Solomon a roddodd nawdd yn y lle cyntaf i'r math o lenyddiaeth ac iddo dreiddio ar hyd y blynyddoedd o lys brenhinol i lys brenhinol? Yn y llysoedd hyn trigai, gwŷr doeth, fel y trigai'r offeiriaid a'r proffwydi. Gellid edrych ar eu rôl fel cyfryngwyr rhwng y proffwydi a'r bobl. Eu tasg hwy oedd cymhwyso neges y proffwyd at broblemau bywyd bob dydd y bobl gyffredin. Canolbwynt eu dysgeidiaeth oedd dyn a'i fywyd o ddydd i ddydd. Daw hyn i'r amlwg yn llyfr Diarhebion. Y nod yw meithrin a chreu cymeriad cadarn a gwneir hyn trwy gyfrwng dywediadau neu bregethau bychain, cryno. Rhoddir lle amlwg i'r teulu ac yn arbennig i'r fam yn y llenyddiaeth hon. Clodforir gostyngeiddrwydd, diwydrwydd a dyngarwch a chondemnir segurdod, enllib ac anfoesoldeb. Ei nod yw pontio'r gagendor rhwng y sanctaidd a'r seciwlar a chynnig canllawiau dyrchafol.

Darllen: Diarhebion 1: 7 – 9; 20 – 22; 3: 1 – 13.

Anerchiad:

Yn adnodau agoriadol y bennod gyntaf rhestrir y manteision a ddaw i ran y sawl sy'n chwilio a cheisio doethineb. Caiff y gwirion graffter, yr ifanc synnwyr a'r deallus fedrusrwydd a hynny dim ond iddynt ddilyn cyngor y rhai doeth. Rhoddir pwyslais ar addysg fel un o amodau bywyd llwyddiannus ond honnir hefyd fod crefydd yn sicrhau ffyniant, "Ofn yr Arglwydd yw dechrau gwybodaeth" (adn 7.)

Prin yw'r cyfeiriadau at grefydd yng nghorff y llyfr ond mae'r adnod uchod yn arwyddair ac yn thema ganolog i weddill y gwaith. Pwysleisir nad trwy addysg a disgyblaeth yn unig y ceir llwyddiant mewn bywyd. Yn ein cyfnod ni, mae addysg yn cael ei roi ar frig yr agenda politicaidd. Clywsom un prif weinidog yn cyfeirio at, 'Addysg, addysg, addysg!' gan bwysleisio pa mor bwysig yw ym mywyd y wlad. Ond tybed, fel yn hanes llawer o bethau cymdeithasol, fod yn drol yn

cael ei rhoi o flaen y ceffyl? Onid y pwyslais anghywir sy'n cael ei daro bob tro? Mae'r pwyslais ar dargedau, arholiadau a llwyddiant. A'i dyma yw addysg mewn difri? Ydi addysg a byd ysgol yn cyfoethogi bywyd yr unigolyn? Faint o le sy'n cael eu roi i brofiad yn y maes llafur? Fe all addysg fod yn llawforwyn gyfoethog iawn yn natblygiad yr unigolyn. Beth yw nod bywyd? Onid i fod yn Dduw-debyg?

Wrth i ni ymgyfarwyddo â'r bennod gwelwn fod y cynghorion a'r cyfarwyddyd i'r ifanc yn troi o gwmpas y tad a'r fam. Sef y teulu. Rhoddir lle amlwg i'r aelwyd oherwydd yno ym mhresenoldeb ei rieni y llunnir ac y datblygir ei bersonoliaeth. Rhybuddir y llanc o elfennau sy'n bygwth bywyd yr aelwyd. Gwylier rhag cael ei hudo gan gynllwynion drwg a chael ei hudo i ddilyn, "Paid â dilyn llwybr y drygionus, na cherdded ffordd pobl ddrwg" (Diarhebion 4: 14). Rhybuddir ef hefyd yn erbyn godineb ac anlladrwydd, ac i fod yn wyliadwrus "o wefusau'r wraig ddieithr yn diferu mêl, a'i geiriau yn llyfnach nag olew" (Diarhebion 5: 3). Dyletswydd y llanc yw ceisio osgoi unrhyw fath o gyffyrddiad â phuteiniaid a godinebwragedd. Yn ein cyfnod ni, ydi bywyd ac uned y teulu yn cael ei thanseilio? Mae awdur Diarhebion yn rhoi pwyslais ar gyfraniad y ddau riant, yn cydweithio, i feithrin y plentyn, "Fy mab, gwrando ar addysg dy dad, paid â gwrthod cyfarwyddyd dy fam." (Diarhebion 1: 8).

Cyfle i fyfyrio:

Myfyrdod:

'Mi hoffwn ddringo i'r llecyn uchaf yn Athen a gofyn i'w thrigolion, "Gyddinasyddion, paham yr ydych yn troi pob carreg i gasglu cyfoeth, ac mor ddiofal o'ch plant y byddwch ryw ddydd yn ei adael iddynt?"' meddai Socrates gynt. Dyna gwestiwn y dylid ei ofyn ym mhob dinas, a thref, a phentref.

Y mae agwedd foesol y Beibl yn y fantol yr awron. Gan hynny, y mae'r llyfr hwn yn llyfr gwir berthnasol i'n dyddiau ni. Llyfr sy'n ceisio meithrin yn yr ifanc amgyffrediad o hawliau moesol Duw arnom, dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng iawn a ffug, a barn gytbwys, a'u cynorthwyo i rodio llwybr syth a gwastad, i dorri cwys gywir drwy amryfal droeon bywyd.

Mor gadarn yw'r pwyslais ar yr ymarferol! Cytuna'r awdur, mae'n siŵr, â John Ruskin pan ddywed, 'Nid dysgu pobl i wybod yr hyn na wyddant yw addysg, eithr eu dysgu i fyw mewn ffordd nad ydynt yn byw.' Gellir gwybod yr atebion cywir heb ymateb yn gywir. Gallwn fod, fel y cymeriad hwnnw a ddarlunia R. G. Berry, ar ein traed mewn moeseg ac yn ein hyd mewn moesoldeb. Nid galluogi'r ifanc i gonsurio â syniadau yw pwrpas yr awdur, ond i fyw'n iawn. Dyna paham mai o fysg yr Hebrëwyr, nid y Groegwyr, y cododd yr Ymgnawdoliad o ddoethineb.

Sylwer wedyn ar y pwyslais ar bwysigrwydd dylanwadau bore oes. 'Pa mor gynnar y gallaf ddechrau addysgu fy mhlentyn?' gofynnai mam i F. W. Parker. 'Pa bryd yr ydych yn disgwyl geni eich plentyn?' gofynnodd yntau. 'Ond, y mae'n bum mlwydd oed,' oedd yr ateb 'Wraig, peidiwch â sefyll yma'n siarad â mi; brysiwch adref; yr ydych eisoes wedi colli'r pum mlynedd gorau,' meddai ef

Drachefn. Dyna'r pwyslais ar y teulu fel yr uned bwysicaf mewn addysg. 'Y mae'r ysgol yn cyfarwyddo. ond y teulu sy'n addysgu,' medd Salvador de Madariaga. 'Petaem wedi rhoi cyn lleied o sylw i'n planhigion ag a rown i'n plant, byddem heddiw'n byw mewn jyngl,' meddai rhywun. Un o brif amcanion y Llên Ddoethineb yw creu cartrefi dyrchafol, oherwydd ni chyfyd unrhyw gymdeithas yn uwch na lefel ei chartrefi.

T. Glyn Thomas

Emyn: 763 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

O Dduw,
mor aml
rydyn ni'n anwybyddu,
bychanu,
dilorni,
a gweld
amherthnasedd
dy Air di
ar ein cyfer heddiw.

Llyfr ddoe,
geiriau hen ffasiwn,
pell o'n bywyd
cyflym,
modern ni.

Pa mor anghywir
allwn ni fod?
Onid ydi dy Air di
mor berthnasol
heddiw
ag erioed.

Y teulu.
Cnewyllyn y gymdeithas,
yr uned gyflawn
sy'n rhoi plentyn
ar ben ei ffordd.
Y sicrwydd
sy'n cynnal,
yn gwarchod,
yn cadarnhau
a sicrhau.

Y tad a'r fam
fel ei gilydd
yn meithrin
ac yn cyfoethogi
bywyd y plentyn.
Y ddau.

Rho i ni
weledigaeth
llyfr y Diarhebion
o'r newydd

heddiw.

Diolchwn i ti, O Dduw
dy fod
wedi'n gosod yn rhan
o deuluoedd.
wedi'n clymu i'n gilydd
i feithrin a chynnal ein gilydd
i ddysgu ymddiriedaeth
a chyfrifoldeb,
i gyd lawenhau a galaru
ac i ddysgu caru ein gilydd
trwy dy gariad di. Amen.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Emyn: 776 Caneuon Ffydd.

Munud i feddwl:
Pethau rhyfedd ydi malwod. Mae'n nhw'n hoff iawn o loddesta yn yr ardd acw. Wn i ddim ydi mhlanhigion i yn well ac yn fwy blasus na'r rhai drws nesa ond acw mae'n nhw'n tyrru. Un noson mi gasglais i 274 o falwod a hynny mewn cwta ugain munud. A dyma fi'n eu taflu i gyd i ardd drws nesa.... Na, mi es â nhw i gyd i lan y môr iddyn nhw gael gloddesta ar y planhigion ar wal y traeth. Bore drannoeth, cyn i'r haul godi, dyma fynd ati i ddyfrio ychydig ar y planhigion fyddai'n wynebu tanbeidrwydd yr haul yn ystod y dydd. Er i mi lenwi'r can dyfrio doedd dim diferyn yn dod allan. Dyma ddechrau datgymalu a phan ddois at geg y can beth oedd yno ond clamp o falwoden fawr lonydd. Wedi clywed mod i o gwmpas a mynd i swatio i'r tamprwydd yn fan'no! Mae'n amlwg na fedr malwen ddim bagio. Cefais gryn drafferth i'w rhyddhau. Dim lle o gwbl iddi droi'n ôl.

'Gwyn ei fyd', meddai awdur Diarhebion, 'y sawl a gafodd ddoethineb a'r un sy'n berchen deall.' (Diarhebion 3: 13). Peidiwch byth â'ch rhoi eich hun mewn sefyllfa na fedrwch bagio'n ôl. Mi fyddai i'n clywed pobl weithiau yn ei dweud hi, ac yn blagardio, ac yng ngwres

y foment yn dweud pethau sy'n mynd i'r byw. Anodd iawn ydi creu heddwch wedyn. Mor hawdd ydi beirniadu a gweld beiau. Mae'n ddigon hawdd gweld beiau ar deuluoedd y dyddiau hyn. 'Dydi'r rhieni'n malio dim am eu plant. Mae'n nhw'n gadael iddyn nhw wneud fel fyd fynnon nhw . Maen nhw allan ar y strydoedd berfeddion nos.....' Mor hawdd ydi deud y drefn! Os gwn i beth ydyn ni'n wneud fel eglwys i helpu teuluoedd yn yr ardal. Ydych chi'n barod i roi o'ch amser i helpu trwy: gynnig help llaw.

- ❖ i ofalu am y plant yn ystod y dydd neu gyda'r nos.
- ❖ i fynd i siopa dros y fam.
- ❖ i helpu'r tad i drin yr ardd neu drin y tŷ.
- ❖ i gymell y plant i ddod i'r ysgol Sul.

Mor bwysig ydi cymryd amser i bwyso a mesur a pheidio bod yn fyrbwyll. Dysgu gwrando a cheisio rhoi eich hunain yn esgidiau'r person arall. Peidio gwthio'n rhy galed neu..... Ydych chi'n cofio beth ddigwyddodd i'r falwoden? Rhoi digon o le i ddealltwriaeth a chadw'r sianeli'n glir. Dyna mae'r gŵr doeth yn ei wneud.

Cwestiynau i'w trafod:
Beth sydd gan lyfr y Diarhebion i'w ddweud am (a) addysg (b) y bywyd teuluol?

Sut fyddech chi'n mynd ati i ddiffinio beth yw addysg?

Disgrifiwch yn fanwl beth yw 'bywyd teuluol' ar eich aelwyd chi. Oes'na densiynau yn digwydd? Pa mor aml fyddwch chi'n ffraeo?

Ydi'r eglwys heddiw yn rhoi digon o arweiniad i deuluoedd ifanc? A ddylai maes llafur yr ysgolion gynnwys gwersi a seminarau ar nodweddion y bywyd teuluol?

Ydych chi, weithiau, yn berson byrbwyll? Yn difaru ar ôl agor eich ceg? Sut mae rheoli eich tymer? Sut fyddwch chi'n rheoli eich tymer eich hun? Rhannwch eich profiadau â gweddill y gynulleidfa.

Emyn: 783 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

Gofynnwn i ti gyffwrdd â'n calonnau
a'n hatgyfnerthu
i ddwyn holl deuluoedd y byd
i rannu yn dy lawenydd di. Amen.